**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 2 Tachwedd 2016.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad sain o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Ann Griffith (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeffrey M. Evans, John Griffith, K P Hughes, W T Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Raymond Jones a Nicola Roberts.<br><br>Y Cynghorydd R.A. Dew – Deilydd Portffolio – Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr T.Ll. Hughes (cais 12.6); P.S. Rogers (cais 7.3); Ieuan Williams (cais 12.3) |

1.00 o'r gloch y.p. - 3.40 o'r gloch y.p.

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safleoedd cynllunio a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Roedd siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.2, 7.3, 12.2 a 12.6. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| --- | --- |
| PENDERFYNIAD | **6.1 203C310B/EIA/RE – Cais llawn ar gyfer adeiladu fferm arae solar 49.99MW ynghyd ag offer isadeiledd cysylltiedig a gwaith ategol ar dir ger Rhyd y Groes, Rhosgoch**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.2 36C338A – Cais llawn i godi annedd ynghyd â chodi modurdy ar wahân ar dir gyferbyn ag Ysgol Henblas, Llangristiolus**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| --- | --- |
| PENDERFYNIAD | **7.1 15C215C – Cais llawn i godi annedd ynghyd â gosod tanc septic ar dir ger Tyddyn Bwrtais, Llangadwaladr**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd ystyriwyd ei fod yn cydymffurfio â Pholisi 50.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau a roddwyd dros ganiatáu'r cais.)***<br><br>***7.2 44C102A – Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ar dir tu ôl i Hazelbank, Rhosybol***<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog gydag amod Grampian mewn perthynas â'r fynedfa oherwydd yr ystyriwyd na fyddai'r cais yn arwain at ddatblygiad tandem.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r*** |

| | |
|---|---|
| | ***cyfarfod nesaf er mwyn rhoi amser i Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau a roddwyd dros ganiatáu'r cais.)***<br><br>**7.3 45C84M/ENF – Cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd tir i fod yn gae chwarae ynghyd â chreu mynedfa newydd yn Pendref, Penlon, Niwbwrch**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 45C468 – Cais llawn i newid defnydd adeilad allanol i annedd, creu mynedfa i gerbydau, gosod system trin carthffosiaeth ynghyd â chodi strwythur lliniaru ecolegol yn Bodrida Bach, Brynsiencyn**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio'r cais er mwyn rhoi rhagor o amser i Swyddogion ystyried cynnwys arolwg strwythurol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd a hefyd i drafod y man pasio ar y briffordd y mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi gofyn amdano.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **12.1 15C30H/FR – Cais llawn i newid defnydd tir amaethyddol er mwyn ymestyn y maes carafannau presennol i leoli 14 o garafannau symudol ychwanegol ynghyd â gosod tanc septig ar dir yn Pen y Bont Farm Touring & Camping, Malltraeth**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle er mwyn gweld safle'r cais.**<br><br>**12.2 20C304A – Cais llawn i newid defnydd rhan o annedd i siop Dosbarth A3 (gwerthu prydau poeth – 'takeaway') ynghyd â chreu mynedfa i'r cyhoedd yn Bron Wendon, Bae Cemaes**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.3 23C280F – Cais llawn i godi sied amaethyddol a pharlwr godro yn Plas Llanfihangel, Capel Coch**<br><br>**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.4 23C280G - Cais llawn i newid defnydd adeiladau allanol i 10 annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd â gwelliannau i'r fynedfa bresennol yn Plas Llanfihangel, Capel Coch**<br><br>**Cafodd y cais ei dynnu yn ôl.**<br><br>**12.5 25C242 – Cadw pwll ynhgyd â gwaith draenio yn Tyn Cae, Coedana, Llanerchymedd**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.6 46C572 – Cais llawn i newid adeiladau allanol i dair annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd â gwelliannau i'r fynedfa yn Glan Traeth, Bae Trearddur**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn** |

| | |
|---|---|
| | **unol ag argymhelliad y Swyddog, gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ynghyd ag amod ychwanegol bod y fynedfa i'r safle yn cael ei chwblhau cyn cychwyn ar y datblygiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | Ni chafodd yr un mater arall ei ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |